TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds Rhaglen Sylfaen mewn Gwaith Coed ac Asiedydd Lefel 2



**Yn gryno**

Bydd y Cwrs Sylfaen mewn Gwaith Coed a Saernïaeth yn eich cyflwyno i sgiliau gwaith coed a saernïaeth, yn ogystal â sgiliau Gosod Brics. Byddwch yn dysgu, datblygu ac ymarfer y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth a/neu ddilyniant gyrfa mewn gwaith coed neu saernïaeth.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Rydych yn dymuno cael gyrfa mewn gwaith saer/toi

... Mae gennych ddiddordeb brwd yn y diwydiannau adeiladu

... Rhai sy'n mwynhau gwaith ymarferol ac yn gwerthfawrogi astudiaeth ddamcaniaethol

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r cwrs yn ymdrin ag astudiaethau crefft-benodol, fel technegau uno pren (saernïaeth) a gwaith coed sylfaenol ar y safle ynghyd â sgiliau gosod brics sylfaenol.

Egwyddorion adeiladu adeiladau, gwybodaeth a chyfathrebu
Cynnal a chadw a defnyddio offer llaw gwaith coed a saernïaeth
Paratoi a defnyddio offer pwer cludadwy gwaith coed a saernïaeth
Cynhyrchu uniadau gwaith coed, gosod brics i greu waliau
Iechyd, diogelwch a llesiant mewn adeiladu

Byddwch yn cael eich asesu trwy brosiectau ymarferol a phrofion ar-lein ac ysgrifenedig, ac ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Cymwysterau ategol priodol er mwyn ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant
Gweithgareddau Sgiliau
Mathemateg a Saesneg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gael lle ar y cwrs, byddwch angen o leiaf 4 TGAU gradd D neu uwch, gan gynnwys Mathemateg/Rhifedd Mathemateg a Chymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg neu gymhwyster Lefel Mynediad priodol.

Mae'n rhaid i chi fod ag awydd i weithio yn y diwydiant adeiladu. Mae angen ymrwymiad llawn i bresenoldeb, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaus ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs Sylfaen mewn Gwaith Saer ac Asiedydd, gallwch symud ymlaen i'r lefel nesaf i roi hwb pellach i'ch sgiliau neu fynd yn syth i gyflogaeth gan ddefnyddio'r sgiliau rydych wedi'u datblygu.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd angen i chi wneud asesiad y diwydiant adeiladu er mwyn helpu i ddewis y cwrs mwyaf

addas ar eich cyfer.